Sut mae Gwneud Gitar o Flwch Cardfwrdd

Bydd angen:

- Rhywun I'ch helpu chi (pwysig iawn!)
- Blwch cardfwrdd
- Beiro
- Rhywbeth ag ymyl cylch i lunio o'i amgylch (fel gwydr ar ei ben i lawr)
- Siswrn
- Selotep
- Bandiau lastig
- Dewisol: Paent, pinau lliw, sticeri, gliter, glud

Cam Un:

siâp cylch ychydig dan hanner ffordd ar hyd un o ymylon mawr y blwch (gan ddefnyddio rhywbeth fel gwydr ar ei ben i lawr os ydy hynny'n helpu) Yna gofynna i'r oedolyn ei dorri allan gyda siswrn. Paid â thaflu'r cylch a dorraist ti chwaith, achos bydd arnat ti ei angen yng ngham dau!

Cam Dau:

Gofynnwch I'ch cynorthwyydd wuneud cylch cardfwrdd yn ei hanner a'i roi o'r neilltu. Gan ddefnyddio hanner arall y cylch, torra o un pen i'r llall i wneud petryal. Plyga'r petryal 2 waith i'w wneud yn fwy trwchus a'i lynu gyda selotep ychydig o dan y cylch sydd gen ti yn dy flwch cardfwrdd. Yn olaf, cym yr hanner a dorraist ti allan yn gyntaf a'i ludo â selotep ar ben y petryal cardbord bach gyda darn syth yr hanner cylch yn cyffwrdd y twll a dorraist ti.

Os nad ydy hyn yn gwneud llawer o synnwyr, edrych ar y lluniau isod!

Cam Tri (Dewisol):

Addurno dy gitâr flwch gan ddefnyddio paent, pinnau lliw, sticeri, gliter a glud!

Cam Pedwar:

Ar ôl i dy gitâr flwch sychu, ymestyn dy fandiau elastig o amgylch y blwch cardbord fel eu bod yn ymestyn o un pen hir i'r llall ac yn mynd dros dop y cylch. Galli di ddefnyddio cyn lleied ag un band elastig, ond galli di ddefnyddio llawer mwy na hynny os hoffet ti! Mae gan y rhan fwyaf o gitarau 6 tant os wyt ti eisiau copïo hynny. Mae gan gitarau bas 4 tant.

Cam Pump:

I atal y bandiau elastig rhag suo pan fyddi di'n eu chwarae, rho un darn olaf o selotep dros ben yr hanner cylch cardfwrdd ar waelod y gitâr.

Pethau i ti roi cynnig arnyn nhw:

Wrth i ti chwarae tannau'r gitâr ag un llaw, ceisia wthio'r bandiau elastig yn erbyn y blwch gyda dy llaw arall - ydy'r gitâr yn gwneud sŵn gwahanol wrth i ti wasgu'r bandiau yn erbyn y gitâr yn nes at y twll sain?

Os wyt ti am roi cynnig ar wneud gitâr arall a defnyddio blwch llai neu fwy, a ydy'r ddwy gitâr flwch yn swnio'n wahanol pan fyddi di'n eu chwarae nhw?

Yn ogystal â strymio dy gitâr, edrych pa synau eraill y galli di eu gwneud drwy grafu gwahanol wrthrychau dros y bandiau rwber tynn. Ydy'r bandiau rwber yn gwneud sŵn pan fyddi di'n ysgwyd dy gitâr flwch?

Cam Un:

Cam Dau:

arts active
actifyddion
artistig

TESCO
CHOCO
NUT
PILLOWS

TESCO
CHOCO
NUT
PILLOWS

Cam Pedwar:

TESCO
CHOCO
NUT
PILLOWS